

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 12fed 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Huw Charles, Gwynfryn Williams a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Rhys Richards, Jean Roberts, Arwel Davies, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Gwaith cynnal a chadw o flaen tai Tai'n Rhos, Parc - cafwyd cadarnhad fod y gwaith am gael eu cwblhau ym mis Rhagfyr.

ii) Ffordd wedi tyllu ger y twll archwilio ar ben rhiw Parc - roedd yr Arolygwr wedi creu taflen waith i'r gweithlu ymgymryd â'r gwaith.

iii) Ffesydd o riw Parc i gyfeiriad Tŷ Du - roedd y tyllau am gael eu llenwi a byddai'r ffesydd yn cael eu glanhau maes o law.

iv) Culfet ger Tyddyn Tegid, Rhyduchaf - roedd yr Arolygwr yn ymwybodol o'r broblem ac yn cadarnhau ei fod ar y rhaglen gwaith.

v) Darn o'r A494 ger mynwent Llanycil yn dechrau gostwng - roedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn ymwybodol o'r sefyllfa ers tro ac wedi cario allan gwaith arbrofol ond yn anffodus ni fuodd yn llwyddiannus. Roedd bwriad i'r archwilio'r tir eto cyn diwedd y flwyddyn ariannol a datblygu datrysiad strwythol tymor hir.

b) Diogelu Data.

Adroddodd y cler ei bod yn parhau i ddatblygu'r dogfennau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer y broses 'Diogelu Data'. Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi dwyieithog ar gyfer y wefan.

c) Triathalon Y Bala.

Cafwyd cadarnhad fod yr asiantaethau perthnasol wedi dod i gytundeb ac y bydd 'Bash Fawr Y Bala' yn cael ei gynnal ar benwythnos olaf mis Mehefin.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Chopi o'i 'Bwletin Byw'n Iach'.

ii) 'Arolwg Strategaeth Ariannol' - cais i'r cynghorwyr fynegi barn ar eu cynigion i wneud arbedion ariannol.

iii) Adolygiad Cludiant Cyhoeddus - cais i ddsbarthu holiadur er mwyn cael adborth y trigolion lleol.

iv) Cyngor Gwynedd - cais i godi giatiaau mewn ffens drydan arfaethedig ar lwybrau cyhoeddus 77 a 86, Llidiardau.

b) Amrywiol.

i) Grŵp Cynefin - gwybodaeth am fflat a oedd cael yn Y Bala.

ii) Egni Co-op - gwybodaeth am gynllun cydweithredol ffotofoltaig solar.

iii) Parc Cenedlaethol Eryri, Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig- Llythyr yn ein cynghori eu bod wedi cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd.

vi) Canolfan Henblas - gwahoddiad i fynychu diwrnod agored i sefydliadau lles yn y Ganolfan ar yr 22ain o Chwefror.

v) Un Llais Cymru - Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 20/02/19.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w gefnogi:-

NP5/72/LB142F a NP5/72/LB142G - Caniatad i ddymchwel gweithdy presnnol a chodi estyniad unllawr newydd. Rafel, Parc.

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

b) Penodi Archwiliwr Mewnol a Ffioedd Archwilio 2018-19

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eleni.

Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt. Derbyniwyd hefyd chopi o'r rhestr ffioedd archwilio 2018-19 gan Swyddfa Archwilio Cymru.

c) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Cylch Meithrin Maesywaen, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, Cantref, Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Tal y Bont, Adran Clogio: Clogswyr Tegid a CFFI Meirionnydd. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Graeanu ffyrdd a biniau halen.

Mynegwyd pryder y cynghorwyr am amharodrwydd Cyngor Gwynedd i raeau'r ffyrdd cefn yn ystod y tywydd garw a'r diffyg halen yn y biniau. Trafodwyd y mater a ategwyd eto mae penderfyniad cyllidol Cyngor Gwynedd oedd peidio llenwi'r biniau halen a'u bod wedi gorfodi'r cyfrifoldeb ymlaen i'r Cynghorau Cymuned er nad oedd ganddynt y gyllideb na'r adnoddau i'w weinyddu. Adroddodd y clerc fod y Cyng. Elwyn Edwards wedi llwyddo i drefnu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i geisio cael datrasiad i'r broblem.

b) Cerflun John Meirion Morris.

Roedd y clerc wedi derbyn cais gan y cylchgrawn Golwg am ymateb y Cyngor i'r drafodaeth ddiweddar i ailymweld a'r ymgyrch i godi'r cerflun ar lan Llyn Celyn. Gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw wybodaeth swyddogol am y mater cytunwyd i beidio gwneud unrhyw sylwad ar hyn o bryd.

c) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i adrannau perthnasol:-

i) Llwybr troed ger Troed y Banc, Rhyduchaf - derbyniwyd cwynion fod biniau ysbwriel yn cael ei gadael wrth fynedfa'r llwybr ac yn rhwystro'r cyhoedd ei ddefnyddio.

a) Culfet Fedw Arian a gwteri rhiw Heol Ffrydan - yn ystod y glaw mawr ychydig wythnosau yn nol roedd llif o ddŵr wedi dod i lawr rhiw Rhyduchaf i gyfeiriad Heol Ffrydan. Unwaith eto roedd y culfet ger Fedw'r Arian wedi cau a chyfeiriwyd efallai bod y cwteri ar riw Ffrydan wedi tagu hefyd.

b) A4212 ger Rhydyfen, Arenig - roedd dŵr yn hel wrth ochr y ffordd rhwng Rhydyfen a chyffordd Arenig a pan roedd yr eira/rhew mawr yn ddiweddar roedd wedi creu dwy blymen fawr o rew a allai achosi damweiniau.

c) Coeden Helyg, ar y terfyn rhwng Fondro a Cefnbodig, Llanycil - roedd hanner y goeden wedi disgyn ers blwyddyn ac roedd peryg i'r hanner arall ddod i lawr hefyd.

ch) Gwasanaeth Ail-Gylchu - derbyniwyd nifer o gwynion am y gweithlu yn gadael llanast ar eu holau a hefyd yn methu rhai anheddau yn gyfan gwbl.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Mawrth 12fed yn Neuadd Maesywaen
am 8.00 y.h.**